

18^{fed} Cyfarfod Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru
Dydd Mercher, 23 Ionawr 2019
Ystafelloedd Seminar 1 a 2, Pierhead, Bae Caerdydd
Cofnodion

AELODAU

Llywodraeth Cymru

Julie James, Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol – Cadeirydd
Hannah Blythyn, Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
Rebecca Evans, Gweinidog Cyllid a Threfnydd

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Y Cyngorydd Anthony Hunt, Llefarydd Cyllid CLILC (Torfaen)
Y Cyngorydd Andrew Morgan, Llywydd CLILC (Rhondda Cynon Taf)
Y Cyngorydd Aaron Shotton, Dirprwy Arweinydd CLILC (Sir y Fflint)
Y Cyngorydd Peter Fox OBE (Sir Fynwy)
Y Cyngorydd Dyfrig Siencyn (Gwynedd)

YN BRESENNOL

Swyddogion Llywodraeth Cymru

Paul Griffiths – Cyngorydd Arbennig
Reg Kilpatrick – Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol
Judith Cole – Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau
Gweithlu
Debra Carter – Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllid Strategol Llywodraeth Leol

Swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Dr Chris Llewelyn – Prif Weithredwr, CLILC
Jon Rae – Cyfarwyddwr Adnoddau, CLILC
Nigel Aurelius – Prif Swyddog Cyllid, Torfaen, ar ran Cymdeithas Trysoryddion Cymru
Mari Thomas – CLILC

Comisiynydd Heddlu a Throseddau

Y Gwir Anrhydeddus Alun Michael – Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru
(gadawodd ar ôl eitem 3)
Peter Curran – Pennaeth Cyllid

YMDDIHEURIADAU

Y Cyngorydd Debbie Wilcox, Arweinydd CLILC (Casnewydd)
Y Cyngorydd Marc Pritchard (Wrecsam)
Y Cyngorydd Paul Miller (Sir Benfro)

Eitem Agenda 1: Croeso a Chyflwyniadau

1. Croesawodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) yr aelodau i gyfarfod cyntaf yr Is-grŵp Cyllid am 2019. Roedd yn gobeithio cael trafodaethau llawn a gonest yn y cyfarfodydd hyn er mwyn i bob aelod gael cyfle i fynegi eu safbwyntiau ac i ddeall safbwyntiau'r aelodau eraill. Cafwyd crynodeb gan y Gweinidog o'r cyfnod ariannol anodd sy'n ein hwynebu, gan gynnwys Brexit, yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a chyni ariannol.

Eitem Agenda 2: Cofnodion a Materion yn Codi o'r Cyfarfod Diwethaf (Papur 1)

2. Cafwyd diweddariad gan y Gwir Anrhydeddus Alun Michael ar faterion plismona, gan nodi pwyntiau sy'n gysylltiedig â'r setliad cyfredol a amlinellwyd gan y Swyddfa Gartref, yn ymwneud yn benodol â chostau pensiynau lle'r roedd y rhan fwyaf o'r rhwymedigaeth, ond nid y cyfan, wedi'i hariannu.
3. Dywedodd y Gwir Anrhydeddus Alun Michael fod setliad yr heddlu'n tybio cynnydd o £24 y flwyddyn ym mhraesept y dreth gyngor, a'i fod yn teimlo bod hynny'n gamarweiniol am nad oedd yn cydnabod pwerau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu i bennu praeseptau'n lleol. Bydd pob un o'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu'n cyflwyno'u praeseptau arfaethedig i banelau yn ystod yr wythnosau nesaf.
4. **Gweithredu o dan Baragraff 23** yn gysylltiedig â'r Gweithgor ar Lywodraeth Leol. Gofynnwyd i Reg Kilpatrick a chyn Brif Weithredwr CLILC, Steve Thomas, i gytuno sut y gellid rhannu trafodaethau'r grŵp yn fwy eang. Awgrymodd Reg Kilpatrick y dylai papurau a chofnodion gael eu cyhoeddi ar-lein. **Cwblhawyd.**
5. Cytunwyd fod y cofnodion yn gofnod cywir.

Eitem Agenda 3: Diweddariad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid (Eitem lafar)

6. Disgrifiodd y Gweinidog Cyllid a Threfnydd y cyd-destun ariannol anodd yn sgil heriau Brexit heb gytundeb, effaith agenda gyntaf Llywodraeth y DU a dim dyraniadau cyllideb ar gyfer 2020-21 oherwydd yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant arfaethedig.
7. Eglurodd y Gweinidog Cyllid a Threfnydd gan y bydd gan Lywodraeth Cymru bwerau'n awr i godi elfen o dreth incwm ar ôl Ebrill 2019, bydd angen i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol sicrhau ein bod yn gallu cyfleu i'r cyhoedd sut mae hyn a threthi eraill yn cael eu gwario er budd y cyhoedd yng Nghymru.
8. Mae'r Gweinidog Cyllid a Threfnydd yn gobeithio cyhoeddi Cynllun Gwaith Treth Cymru ar gyfer 2019 ym mis Chwefror. Bydd yn disgrifio'r cynllun gwaith sy'n gysylltiedig â pholisi treth yng Nghymru a'r pedair egwyddor sy'n sail i ddatblygu'r agenda (h.y. dylai trethi Cymru godi refeniw yn y ffordd decaf bosibl; cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru; bod yn eglur, sefydlog a syml; cael eu datblygu drwy gydweithrediad; a chyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol). Cafodd diweddariad mwy manwl ar ddatblygiad y dreth gyngor ac

ardrethi annomestig yn ogystal â diwygiad ehangach cyllid llywodraeth leol ei gyhoeddi fis Hydref 2018.

9. Nododd y Gweinidog Cyllid a Threfnydd ei bod yn awyddus i gydweithredu, i sicrhau bod pobl yn cydweithio i weithredu ac i greu syniadau newydd. Disgrifiodd gynlluniau ar gyfer y dreth gyngor a gofynnodd am gymorth awdurdod lleol drwy gyflwyno data i'r contractwr a gomisiynwyd i ymchwilio i effaith Credyd Cynhwysol ar aelwydydd, cymhwysedd ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, yr effaith ar ôl-ddyledion rhent a'r perygl o fynd i ddyledion. Diolchodd y Gweinidog i aelodau llywodraeth leol am eu cydweithrediad hyd yma gyda'r gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu ymagwedd at y dreth gyngor sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ac roedd yn gobeithio y byddai'r ymgysylltu positif hwn yn parhau.
10. Nododd y Gweinidog Cyllid a Threfnydd yr ymrwymiad ym maniffesto arweinyddiaeth y Prif Weinidog i adolygu contractau Menter Cyllid Preifat (PFI) a dywedodd y byddai'n anfon llythyrau'n fuan gyda chais i gwblhau adolygiadau, neu os oeddent wedi'u cwblhau eisoes, i awdurdodau lleol rannu eu profiadau.
11. Soniodd y Gweinidog Cyllid a Threfnydd am y gwaith mwy tymor hir i edrych ar wahanol ymagweddau tuag at drethiant lleol a'r gwaith manwl a oedd wedi'i gomisiynu. Byddai'r gwaith yn edrych ar ystod o opsiynau, fel moderneiddio trethi eiddo, treth gwerth tir, treth incwm leol, a chydbwysedd cyllid rhwng yr hyn sy'n cael ei ddarparu'n ganolog a'i godi'n lleol.
12. Disgrifiodd y Gweinidog Cyllid a Threfnydd sut y byddai'r mesurau atal osgoi a thwyll ardrethi annomestig yn cael eu cynnwys yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) Bill, ac y byddai is-grŵp o Grŵp Rheolwyr Refeniw a Budd-daliadau Cymru'n cael ei sefydlu ddiwedd Ionawr i wneud amrywiaeth o welliannau.
13. Eglurodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wrth y grŵp y byddai'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd yr Is-grŵp Cyllid, pan fyddai hynny'n bosibl. Eglurodd sut yr oedd cyfrifoldebau wedi'u rhannu rhwng Gweinidogion a sut mae ganddynt drosolwg o feysydd cyfrifoldeb ei gilydd i ddatgloi'r ysgogwyr ar draws y gwahanol feysydd.
14. Mynegodd y Gweinidog ei dymuniad i sicrhau bod y cyfarfodydd hyn yn gwneud y defnydd gorau o amser pawb. Nid oedd yn credu mai'r amserlen bresennol o dri chyfarfod y flwyddyn oedd yr un orau o reidrwydd. Mynegodd hefyd ei bwriad i wahodd Gweinidogion eraill y Cabinet sy'n dyrannu arian i lywodraeth leol i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, er mwyn i'r grŵp gael gwell dealltwriaeth o faterion cyllido portffolios ehangach.
15. Llongyfarchwyd y Gweinidogion gan y Cynghorydd Anthony Hunt ar eu penodiadau a'u bwriad i gael trafodaethau llawn a gonest. Roedd y Cynghorydd Hunt yn awyddus i drafod gwasanaethau ataliol y gallai llywodraeth leol eu cynnig drwy ddeialog ddwyochrog ar gyllidebau drwy gydol y flwyddyn. Roedd am sicrhau bod trafodaethau'n cael eu cynnal mewn partneriaeth, gan ystyried yr effaith ar wasanaethau sector cyhoeddus eraill os byddai cyllidebau'n cael eu

cwtogi. Ychwanegodd fod aelodau'n cydnabod y gwaith positif sydd wedi'i wneud ar ddull sy'n canolbwyntio mwy ar y dinesydd o ran dyledion y dreth gyngor ond pwysleisiodd y byddai'n bryderus pe byddai hyn yn cael effaith negyddol ar gyfraddau casglu'r dreth gyngor. Nododd y Cynghorydd Hunt ei fod yn ymgysylltu â'r agenda polisi treth drwy ei bresenoldeb yn y Grŵp Cynghori Trethi a oedd, yn ei farn ef, yn fforwm defnyddiol.

16. Pwysleisiodd y Gweinidog ei pharch at lywodraeth leol o ran y penderfyniadau anodd sy'n rhaid eu gwneud ar lefel leol. Roedd yn cydnabod nad oedd y fath beth â dewisiadau da a bod cynghorau'n gorfod edrych ar y 'penderfyniad lleiaf drwg'. Roedd yn awyddus i ymgysylltu mwy â llywodraeth leol i sicrhau bod Gweinidogion yn deall dewisiadau o'r fath yn iawn.
17. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn gobeithio na fyddai dim un awdurdod yn pennu cynnydd gormodol yn eu treth gyngor eleni. Dywedodd nad oedd y llywodraeth am ddefnyddio ei phwerau i gapio cyllidebau awdurdodau lleol, gan ei bod yn credu'n gryf bod awdurdodau lleol yn atebol yn ddemocrataidd am eu penderfyniadau ond byddai'n gwneud pob ymdrech i amddiffyn pobl a oedd yn profi cyni.
18. Dywedodd y Gweinidog yr hoffai symud ymlaen o fod yn trafod yr agweddau negyddol yn unig ac i sicrhau bod y grŵp yn trafod mwy ar y pethau positif a oedd wedi'u cyflawni mewn llywodraeth leol ac i rannu'n ehangach sut y cyflawnwyd y pethau positif hynny.
19. Dywedodd y Cynghorydd Andrew Morgan fod materion ariannol wedi'u trafod mewn tri chyfarfod, awr a hanner, y flwyddyn â Gweinidogion ac roedd yn teimlo nad oedd hyn yn llawer o amser. Gofynnodd a fyddai modd cael rhagor o amser gwleidydd i wleidydd. Cynigiodd hefyd i roi manylion am y buddiannau i'w awdurdod pe bai'n prynu ei hun allan o gontractau PFI.
20. Ychwanegodd y Cynghorydd Aaron Shotton ei fod yn teimlo nad oedd gan y grŵp lawer o siawns i newid nac i effeithio ar waith y DSG; dywedodd ei fod yn gobeithio gweld mwy o drafod ar bwysau awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru ar agendâu'r dyfodol; ac roedd yn croesau'r cyfle i drafod yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant.
21. Nododd y Gwir Anrhydeddus Alun Michael er nad oedd polisi plismona wedi'i ddatganoli, roedd yn gweithredu mewn byd datganoledig ac y byddai'n fuddiol edrych ar agweddau ymarferol a phrofiad byrddau rhanbarthol o sut maent yn cyfathrebu, er enghraifft, â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
22. Nododd y Gweinidog ei bod yn awyddus i ddwyn yr holl lywodraethu ynghyd i sicrhau bod negeseuon yn glir a chyson.
23. Dywedodd y Cynghorydd Peter Fox fod llawer o brofiad i'w rannu mewn llywodraeth leol a fyddai'n gallu helpu Llywodraeth Cymru â'i chyllideb a phenderfyniadau eraill.

24. Dywedodd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn er bod y trafodaethau'n rhai positif ar hyn o bryd, roedd am sicrhau bod y Gweinidogion yn sylweddoli maint y pwysau sydd ar lywodraeth leol. Ychwanegodd fod gwasanaethau craidd mewn perygl, gyda'r galw amdanynt yn cynyddu a bod yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd.
25. Croesawodd y Gweinidog y sylwadau agored ac roedd yn deall yr effaith roedd naw mlynedd o gyni wedi'i gael ar wasanaethau lleol, gan ailadrodd nad oedd dim dewisiadau da i'w gwneud wrth dorri gwasanaethau. Roedd yn sylweddoli bod y rhain yn ddyddiau anodd, roedd llywodraeth leol wedi llwyddo'n dda i fantoli'r cyfrifon, ac oedd yn barod i eiriol o blaid llywodraeth leol â Gweinidogion eraill mewn materion ariannol.
26. Nododd nad oedd Gweinidog yn debygol o allu sicrhau setliad gwell y flwyddyn nesaf oni bai bod newid sylweddol ym mholisi Llywodraeth y DU.

Eitem Agenda 4: Rhaglen Waith y DSG 2019 (Papur 2)

27. Cafwyd trosolwg gan Judith Cole o raglen waith yr Is-grŵp Dosbarthu (DSG) gan dynnu sylw at y gwaith ar y sylfaen amcanestyniadau newydd o'r boblogaeth, effaith credyd cynhwysol ar y setiau data a gwelliannau i'r dosbarthu addysg a gwastraff drwy is-grwpiau.
28. Holodd y Cynghorydd Andrew Morgan ai bwriad yr is-grŵp gwastraff oedd sicrhau bod pob awdurdod yn mabwysiadu glasbrint Llywodraeth Cymru. Cafwyd sicrwydd gan Judith Cole na fyddai'r gwaith hwn yn rhoi'r sawl nad oedd yn dilyn model y glasbrint o dan anfantais na bod disgwyl iddynt ei ddilyn.
29. Pwysleisiodd y Gweinidog fod FSG yn gweithredu fel y fforwm i lywodraeth leol i lywio rhaglen waith y DSG ac i gyfrannu mwy at ddatblygiad y fformwla. Pwysleisiodd hefyd fod y rhaglen waith yn penderfynu sut mae'r cyllid yn cael ei ddosbarthu. Roedd hon yn drafodaeth dra gwahanol i'r un ar faint fyddai ar gael i'w ddosbarthu. Ychwanegodd Reg Kilpatrick mai rhan gyntaf y stori oedd y cynllun, gydag effaith ariannol newidiadau mawr i gael eu dangos drwy gydol y flwyddyn.
30. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn amlwg o'r sgysiau a gafwyd yn y Senedd fod pobl am gael fformwla deg, sefydlog a chydadd. Dywedodd os oedd gan unrhyw aelodau bryderon ynglŷn â'r fformwla bresennol, gallant eu mynegi yn y cyfarfod neu eu trafod â hi ar unrhyw adeg wedyn.
31. Roedd y Cynghorydd Aaron Shotton wedi sylwi bod ei eiriau wedi cael eu camddehongli yn y Senedd ar sawl achlysur. Roedd yn cytuno ag egwyddorion y setliad gyda chyllid yn cael ei ddosbarthu'n ôl poblogaeth, amddifadedd a ffactorau teneurwydd y boblogaeth.
32. Roedd yn cydnabod bod y broblem mewn gwirionedd yn deillio o leihau setliadau, ac effaith rhai o'r dangosyddion a data sylfaenol ar rai awdurdodau. Awgrymodd y dylai'r model ymgorffori rhyw fath o fesur o gostau / niferoedd staff oherwydd, er bod yr angen cymharol yn newid bob blwyddyn, byddai nifer y

bobl sy'n cael eu cyflogi gan awdurdod yr aros yr un faint, yn enwedig os nad oedd awdurdodau'n rhoi gwaith i gontractau allanol. Mewn rhai meysydd nid oedd modd allanoli gwasanaethau gan nad oedd gan y sector preifat y gallu i'w wneud.

33. Roedd y Gweinidog yn cydnabod y mater ond dywedodd na ddylai penderfyniadau lleol ddylanwadu ar y fformwla. Er enghraifft, bod awdurdod yn cynyddu ei gostau staff er mwyn cael mwy o arian. Fodd bynnag, roedd yn awyddus y dylid adolygu'r fformwla'n barhaus ac mai diben y DSG oedd canfod problemau ac ymchwilio iddynt.
34. Nododd y Gweinidog hefyd ei bod yn awyddus i sicrhau bod Gweinidogion yn deall ac yn herio penderfyniadau, er enghraifft, pam nad oedd rhai awdurdodau'n codi premiwm y dreth gyngor ar eiddo sy'n wag dros y tymor hir ac ar ail gartrefi.
35. Derbyniodd aelodau'r FSG rhaglen waith y DSG.

Eitem Agenda 5 – Papur CLILC ar yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant

36. Gofynnodd y Cynghorydd Anthony Hunt sut ddylai cyrff cyhoeddus Cymru edrych ar yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant (CSR) i sicrhau bod ymateb Cymru'n unedig. Ychwanegodd Jon Rae gan fod y CSR yn cynnwys ystod mor eang o randdeiliaid, roedd yn bwysig cysylltu ar draws gwasanaethau cyhoeddus i gyfleu negeseuon cydlynus i Lywodraeth y DU.
37. Nododd Reg Kilpatrick fod y CSR yn gyfle unigryw i ailsefydlu sut yr oedd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth leol yn cydweithio â'i gilydd ac â chyrrff eraill y sector cyhoeddus. Nododd fod grwpiau eraill fel Cymdeithas Trysoryddion Cymru a SOLACE eisoes yn ystyried effaith y CSR. Aeth ymlaen i ddweud y byddai'n help i ddatblygu rhaglen waith CSR ac ymagwedd ar y cyd tuag at y CSR i sicrhau nad oedd gwaith yn cael ei ddyblygu ac i sicrhau cydlyniaeth.
Cam Gweithredu: Llywodraeth Cymru / swyddogion CLILC i drafod sut i fabwysiadu ymagwedd gyffredin tuag at waith y CSR.
38. Dywedodd y Gweinidog yr hoffai fynychu cyfarfodydd CLILC yn amlach, efallai am gyfnod byr ar y diwedd, gyda materion penodol, fel y CSR, i'w trafod ar ôl cyfarfodydd i wneud y defnydd gorau o amser cydweithwyr. Pwysleisiodd awydd cryf y Prif Weinidog i weld Gweinidogion yn ystyried materion ar draws y Llywodraeth a phortffolios.
39. Dywedodd y Gweinidog Cyllid a Threfnydd nad oedd ganddi ddim gwybodaeth ynglŷn â pha bryd fyddai'r CSR yn digwydd na pha gyfnod fyddai'n cael ei gynnwys ynddo. Nododd fod yr amseriad yn bwysig gan fod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft cyn Datganiad yr Hydref i roi cymaint o amser cynllunio â phosibl i bartneriaid. Roedd y Pwyllgor Cyllid wedi cadarnhau ei fod yn dymuno parhau â'r broses hon.
40. Nododd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ei bod yn anodd taro cydbwysedd rhwng arwyddion cynnar o gyllid a sicrwydd cyllid.

41. Dywedodd Chris Llewelyn y byddai bwrdd gweithredol CLILC yn trafod y defnydd gorau o amser Gweinidogion ac y gallai CLILC drefnu â'r rhwydweithiau proffesiynol o ran y CSR.
42. Dywedodd y Cynghorydd Andrew Morgan fod y CSR yn ei gwneud yn anos i awdurdodau i flaengynllunio ac y byddai cael unrhyw arwyddion cynnar o'r sefyllfa waethaf bosibl yn rhywbeth a werthfawrogid. Gofynnodd a oedd unrhyw wybodaeth am bensiynau athrawon gan y gallai hyn olygu na fyddai awdurdodau'n gallu mantoli eu cyllideb.
43. Dywedodd y Gweinidog Cyllid a Threfnydd fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid wedi ysgrifennu at Drysorlys EM ond na chafwyd ymateb. Roedd hithau hefyd wedi ysgrifennu atynt ers hynny ond heb gael ateb. Roedd hi, ynghyd â'r gweinyddiaethau datganoledig eraill yn cwrdd â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ar 15 Chwefror, ac roedd y pwnc hwn yn uchel ar yr agenda.
44. Roedd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn cydymdeimlo ag awdurdodau lleol a chadarnhaodd ei bod yn barod i rannu wybodaeth cyn gynted ag y byddai unrhyw beth yn hysbys. Eglurodd y byddai unrhyw arian a geid ar gyfer cyflogau'r sector cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i'r diben y'i bwriadwyd.

Eitem Agenda 6: Unrhyw Fater Arall

45. Gorffennodd y Gweinidog drwy ddweud fod angen trefniadau ar gyfer y CSR a gofynnodd am neilltuo amser ar ôl y cyfarfod nesaf o gyngor CLILC i drafod y defnydd gorau o amser pawb.
46. Cynigiodd y Gweinidog hefyd fod cyfarfod nesaf FSG yn cael ei gynnal ar ôl y Pasg i rannu rhagor o wybodaeth, os bydd ar gael, ar y CSR a Brexit.
47. Gofynnodd y Cynghorydd Anthony Hunt am eglurhad ar grantiau penodol sydd heb eu cyhoeddi eto. **Cam Gweithredu: Llywodraeth Cymru i egluro symiau grantiau penodol, a rhannu'r wybodaeth â CLILC.**
48. Daeth y Gweinidog â'r cyfarfod i ben drwy ddweud pan fydd grantiau'n cael eu neilltuo, bod angen rheswm da dros wneud hynny ac y dylai'r trafodaethau ar drosglwyddo grantiau i'r RSG barhau pan yn briodol.